## Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**HSS(2)-04-03 (p.5)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **8 Hydref 2003** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora , Cynulliad Cenedlaethol Cymru** |
| **Teitl:** | **Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad Ymchwiliad Victoria Climbié** |

### Diben

1. Ar 28 Ionawr 2003 cyhoeddwyd Adroddiad Ymchwiliad Victoria Climbié, a gadeiriwyd gan Arglwydd Laming.

2. Bwriad y papur hwn yw tynnu sylw'r aelodau at ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i argymhellion yr Adroddiad.

### Crynodeb

3. Ym mis Ionawr 2001, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Ymchwiliad Statudol mewn perthynas â'r digwyddiadau'n gysylltiedig â marwolaeth Victoria. Penodwyd yr Arglwydd Laming gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, drwy arfer ei bwerau o dan A.81 o Ddeddf Plant 1989 ac o dan A.84 o Ddeddf y GIG 1977, a chan yr Ysgrifennydd Cartref, drwy arfer ei bwerau o dan A.49 o Ddeddf Heddlu 1996, i gynnal ymchwiliad o dan yr holl ddarpariaethau statudol hyn i'r amgylchiadau a arweiniodd at farwolaeth Victoria Climbié.

4. Cafodd yr adroddiad ei ddosbarthu i Weinidogion ar 6 Ionawr 2003 a'i gyhoeddi ar 28 Ionawr 2003.

5. Dyma rai o brif negeseuon yr adroddiad:

- Nid oedd un o'r asiantaethau sydd ag awdurdod y Senedd i amddiffyn plant mewn sefyllfaoedd tebyg i rai Victoria - ac sy'n cael eu hariannu o'r pwrs cyhoeddus - wedi dod allan o'r ymchwiliad hwn mewn goleuni da iawn. Roedd dioddefaint a marwolaeth Victoria yn fethiant llwyr o'r system ac yn anfaddeuol.
- Nid oedd yr asiantaethau a oedd yn gyfrifol am Victoria yn rhoi blaenoriaeth i amddiffyn plant. Roedd prinder arian a staff ac nid oeddent yn cael arweiniad da.

- Pe bai anghenion Victoria wedi cael eu diwallu'n iawn pan gafodd ei chyfeirio gyntaf at Wasanaethau Cymdeithasol Ealing, mae'n bur debyg y byddent wedi sylwi ei bod mewn perygl ac y byddent wedi cymryd camau a allai fod wedi golygu na fyddai'n rhaid i asiantaethau eraill fod wedi bod ynghlwm â'r mater yn nes ymlaen.

- Er bod safon y gwaith a wnaed gan y rheini a oedd mewn cysylltiad uniongyrchol â hi yn gyffredinol wael, rheolwyr ac uwch reolwyr yr awdurdodau sy'n bennaf gyfrifol am y methiant o sicrhau bod y gwasanaethau i blant, fel Victoria, yn cael eu hariannu a'u staffio'n ddigonol ac yn gallu darparu cymorth o ansawdd i blant a theuluoedd.

- Rhaid i gynghorwyr etholedig ac uwch swyddogion sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth gyson ynghylch sut y caiff gwasanaethau eu darparu, a rhaid iddynt beidio â derbyn pethau fel ag y maent ar yr wyneb. Roedd uwch swyddogion hefyd yn amharod i dderbyn y gallent fod wedi gwneud unrhyw beth ar gyfer Victoria. Yn ôl cyn brif weithredwr cyngor Haringey, Gurbux Singh, roedd problemau o ran adnoddau ond ar wahân i hynny nad oedd yn gallu meddwl beth arall y gallai fod wedi'i wneud i atal y drasiedi a ddigwyddodd. Nid dyna farn yr Arglwydd Laming.

- O'r dystiolaeth a glywodd daeth i'r casgliad nad oedd yn ymarferol nac yn ddymunol ceisio gwahanu'r gwasanaethau cymorth i blant a theuluoedd oddi wrth y gwasanaeth a oedd wedi'i sefydlu i ymchwilio i honiadau o niweidio plant ac i amddiffyn plant. Rhaid dod o hyd i ateb arall, felly. Nododd yr Arglwydd Laming nifer o newidiadau yn y prif adroddiad ac roedd yn argymell y dylid eu cyflwyno i'r gwaith o drefnu a rheoli gwasanaethau amddiffyn plant a chefnogi teuluoedd.

6. Mae'r adroddiad yn mynd i'r afael â phryderon am drefniadau amddiffyn plant yn Lloegr ac mae'r rhan fwyaf o'r argymhellion yn ymwneud â pholisi ac arferion y wlad honno. Fodd bynnag, pan gyhoeddwyd yr adroddiad, roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydnabod bod nifer o'r argymhellion yn berthnasol i Gymru ac addawyd ystyried goblygiadau argymhellion yr Arglwydd Laming i'r gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yng Nghymru. Ceir yr ymateb yn y ddogfen amgaeedig.

7. Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymateb ar wahân i'r argymhellion yn ymwneud â'r heddlu, sef cyfrifoldeb y Swyddfa Gartref yng Nghymru a Lloegr. Nid ydyw wedi ymateb ychwaith i'r argymhellion cyffredinol sy'n cyfeirio at strwythurau yn Lloegr.

8. Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau ymateb Llywodraeth y DU hefyd ar 8 Medi. Ar yr un pryd cafodd Papur Gwyrdd y Llywodraeth, "Keeping Children Safe" ei gyhoeddi.

## Ymateb Llywodraeth y Cynulliad

9. Y prif faterion yr aed i'r afael â hwy yn ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad yr Arglwydd Laming yw'r rheini'n gysylltiedig â'r sectorau Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.

10. O'r 73 argymhelliad y cyfeirir atynt yn yr ymateb, mae'r mwyafrif eisoes wedi'i pennu'n arfer da. Ar 26 Mawrth 2003 ysgrifennodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at holl awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd, ymddiriedolaethau'r GIG a byrddau iechyd lleol Cymru i dynnu'u sylw at yr argymhellion hyn.

11. Cyhoeddodd Prif Arolygydd Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC), fframwaith archwilio ac erfyn archwilio electronig i bob awdurdod lleol yng Nghymru i'w helpu i gymharu'u sefyllfa o ran arferion da â'r argymhellion hyn. Mae pob un ohonynt wedi ymateb i'r archwiliad ac mae'r rhain yn cael eu gwerthuso fel rhan o brosiect datblygu a gwella'r AGCC.

12. Mae'r holl argymhellion eraill wedi cael eu derbyn ac mae gwaith ar droed ar hyn o bryd i'w rhoi ar waith. I ddechrau ymgynghorir â phob asiantaeth amddiffyn plant yng Nghymru mewn cynadleddau a drefnwyd ar gyfer 3 Hydref (De Cymru) a 15 Hydref (Gogledd Cymru).

## Camau i'w cymryd

13. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Jane Hutt**
**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

## Swyddog Cyswllt

Yr enw cyswllt yw Mr Christopher Burdett, Pennaeth yr Is-adran Plant a Theuluoedd est. 3936